# Swp-gynhyrchu

Defnyddir swp-gynhyrchu i weithgynhyrchu symiau bych o gynnyrch o'r un tecstilau sydd eu hangen ar gyfer cleient neu ddiben penodol. Mae'r broses gynhyrchu'n parhau am gyfnod o amser cyfyngedig.

## Y ffeithiau sylfaenol

- Mae'n rhaid i'r rhesi cynhyrchu a'r amodau gwaith fod yn hyblyg ac y gellir eu haddasu'n rhwydd i fodloni gofynion amrywiol.
- Gellir ailadrodd sypiau nifer o weithiau yn unol â'r galw am y cynnyrch.
- Mae costau cynhyrchu yn amrywio ond nid ydynt yn ddrud iawn.
- Mae cynnyrch yn llai drud oherwydd gellir prynu defnyddiau a chydrannau mewn sypiau sy'n helpu i leihau costau.
- Mae peirianwyr yn dueddol o arbenigo ar un math o broses mewn rhes gynhyrchu ac nid yw eu lefel medrusrwydd mor uchel.
- Collir amser yn aml pan fydd rhesi cynhyrchu newydd yn cael eu cyflwyno oherwydd bod angen ailosod peiriannau.
- Mae angen gofod i gadw stoc cyn ei ddosbarthu i'r cleientiaid neu siopau.
- Mae'r raddfa hon o gynhyrchu yn ddelfrydol ar gyfer diwallu'r galw am gynnyrch tymhorol megis dillad haf/gaeaf, neu barod i'w wisgo (Prêt-á-porter) a chasgliadau "diffusion" cynllunwyr.

## Cynnyrch tecstilau sydd wedi'u swp-gynhyrchu




Cynnyrch nifer cyfyngedig: nwyddau sydd wedi'u cynhyrchu ar gyfer digwyddiadau penodol megis Gemau Olympaidd Llundain 2012.





Dillad tymhorol: megis dillad parti haf neu ffasiwn cryf sy'n boblogaidd ar y pryd ond na fyddant yn parhau mewn ffasiwn am gyfnod hir.



Gwisgoedd a wneir ar gyfer digwyddiadau neu wyliau tymhorol megis y Nadolig neu Galan Gaeaf.






Digwyddiadau neu wyliau chwaraeon tymhorol poblogaidd megis sgïo.

## Manteision swp-gynhyrchu

- Gellir prynu defnyddiau a chydrannau mewn sypiau sy'n lleihau costau.
- Mae peirianwyr yn arbenigo mewn un neu ddau o weithredoedd er mwyn iddynt allu cynhyrchu symiau mawr o gynnyrch mewn cyfnod o amser byr.
- Gall peirianwyr ennill cyflog gweddol dda oherwydd gallant weithio'n gyflym oherwydd bod ganddynt arbenigedd mewn dim ond rhai prosesau.
- Bydd peirianwyr yn aml yn cael cyfle i ddysgu sgiliau newydd pan fydd dillad newydd yn cael eu cyflwyno.
- Mwy o amrywiaeth yn y gwaith sy'n cael ei gynhyrchu.
- Mae'r cynnyrch yn rhatach ac yn fwy fforddiadwy ar y cyfan, felly mae'r farchnad darged yn fwy.

## Anfanteision swp-gynhyrchu

- Mae angen i ffatrïoedd sicrhau bod ganddynt amrywiaeth eang o beiriannau a bod yn hyblyg er mwyn ymdopi â newidiadau yn y galw. Gall hyn fod yn ddrud.
- Collir amser yn aml pan fydd angen newid rhesi cynhyrchu er mwyn gweithgynhyrchu cynnyrch newydd.
- Mae'n rhaid storio stociau o ddefnyddiau a chydrannau er mwyn diwallu'r gofynion cynhyrchu.
- Mae'n rhaid storio cynnyrch gorffenedig cyn eu dosbarthu i siopau.
- Nid yw'r cynnyrch yn unigryw.

### Cynhyrchiant cell

Mae timau bach yn cydweithio ac maent yn gyfrifol am ansawdd y cynnyrch gorffenedig. Mae swyddi'n cael eu cylchdroi, ond mae'n rhaid i weithwyr fod yn fwy hyblyg a medrus. Mae hyn yn gwneud y gwaith yn llai diflas. Mae'r math hwn o broses gynhyrchu yn addas pan fydd cynnyrch yn newid yn aml ond sy'n symlach i'w creu ar y cyfan.

## Swp-gynhyrchu cynyddol

Mae hyn yn debyg i broses gynhyrchu cell lle bydd timau'n cydweithio ond bydd pob peiriannydd yn gyfrifol am un rhan yn unig o'r broses gynhyrchu.  Mae'r gweithwyr yn llai medrus a gall y gwaith fod yn ailadroddus.

Mae'r fideo canlynol yn dangos y broses o gynllunio, datblygu a gweithgynhyrchu bicini, sy'n enghraifft o swp-gynhyrchu.  Ystyriwch yr holl brosesau sy'n gysylltiedig â chreu cynnyrch o ansawdd.  Mae pob cynnyrch tecstil yn destun i brosesau tebyg ac mae'r costau sefydlu'r un peth waeth beth fydd maint y broses weithgynhyrchu.